Sut yr ymgynghorwn

ar blannu coetir a thorri coed

Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

Ymgynghori â chi a'r gymuned leol ar argymhellion am blannu coetir a thorri coed

Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio sut y bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn cael barn pobl yn y gymuned leol ac yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ac awdurdodau statudol eraill ar argymhellion *am blannu coetir a thorri coed.*

Ein cyfrifoldebau

Y Comisiwn Coedwigaeth yw Adran y Llywodraeth ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae gennym ddyletswydd statudol i ddiogelu ac ehangu coedwigoedd a choetiroedd a chynyddu eu gwerth i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd. Rydym yn gyfrifol am weithredu polisïau coedwigaeth y Llywodraeth a gwnawn hyn trwy ein rheolaeth o ystâd y Comisiwn Coedwigaeth, trwy ddarparu grantiau, rheolaethu torri coed a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn ymgynghori ag awdurdodau lleol a chyrff eraill sydd â phwerau statudol yn ymwneud â defnydd tir cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am blannu coetir a thorri coed.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut y bydd y dulliau gweithredu hyn yn gweithio a sut y gallwch fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghorol.

Ystyried ceisiadau am rantiau a thrwyddedau torri coed

Pryd y bydd angen ceisiadau

Cyflawnir bron yr holl blannu coetir gan dirfeddianwyr preifat yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyda help cymorthdaliadau gan y Comisiwn Coedwigaeth. Gall tirfeddianwyr wneud cais am gymhorthdal i greu coetiroedd newydd a rheoli coetiroedd sydd eisoes yn bodoli. Am dorri coed, fel arfer bydd angen Trwydded Torri Coed. Gellir gwneud cais am hyn ar wahân neu fel rhan o gais am gynllun grant. Fel arfer rhoddir Trwyddedau Torri Coed gyda'r amod y bydd rhaid ail-blannu'r tir â choed.

Rhaid hefyd i Fenter Coedwigaeth, asiantaeth y Comisiwn Coedwigaeth sydd yn rheoli'r ystâd goedwig gyhoeddus, gael cymeradwyaeth y Comisiwn Coedwigaeth am eu hargymhellion am blannu coetir a thorri coed.

Cwrdd â safonau

Byddwn yn ystyried pob cais yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â gofyniadau Safon Goedwigaeth y DU. Mae'r Safon yn gosod y meini prawf a'r safonau am reolaeth gynaliadwy coedwigoedd a choetiroedd yn y DU. Cewch weld copi o'r Safon ar ein gwefan yn yr adran Cyhoeddiadau. Rhaid i argymhellion gymryd yr amgylchedd i ystyriaeth, yn benodol: tirwedd; cadwraeth natur; treftadaeth ddiwylliannol a dur. Ni fyddwn yn cymeradwyo cais os na fydd yn cwrdd â'r gofyniadau hyn.

Ystyried yr effeithiau ar yr amgylchedd

Os byddwn yn cael cais am blannu newydd neu am dorri coed heb unrhyw ail-blannu am arwynebedd yn fwy na meini prawf penodol, ac os byddwn yn penderfynu y bydd y gwaith yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd wneud cais am ein caniatâd i gyflawni'r gwaith o dan Reolaethau Asesiad Effeithiau Amgylcheddol 1999. Fel rhan o'r cais, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno Datganiad Amgylcheddol i ddangos sut y bydd yr argymhellion yn cymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd. Unwaith y byddwn yn cael y cais a'r Datganiad Amgylcheddol, byddwn yn cyhoeddi manylion yn y papurau lleol ac yn rhoi manylion o'r cais i'r cyrff gwledig perthnasol a'r awdurdod lleol sydd yn gysylltiedig â'r cais.

Ar ôl cymryd y Datganiad hwn i ystyriaeth ac unrhyw sylwadau neu gyflwyniadau, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn rhoi ein caniatâd am y prosiect ai peidio. Unwaith y byddwn wedi gwneud y penderfyniad hwn, byddwn yn ei gyhoeddi mewn papur newydd ac yn hysbysu pawb a roddodd sylwadau.

Am ragor o fanylion, gweler ein llyfryn "Asesiad Amgylcheddol o Brosiectau Coedwigaeth" ar ein gwefan trwy ddilyn y dolennau o **www.forestry.gov.uk/regulations** - mae copïau ar gael hefyd o swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth.

Rhoi gwybod i'r cymdogion am argymhellion

Byddwn yn cynghori ymgeiswyr plannu coetir neu drwyddedau torri coed yn gryf i drafod eu hargymhellion gyda'r cymdogion hynny y mae'n bosibl y bydd yr argymhellion yn effeithio ar eu heiddo. Mewn rhai achosion byddwn yn gwneud hyn yn ofyniad. Yna bydd rhaid i ymgeiswyr gofnodi manylion o unrhyw drafodaethau a fydd yn digwydd a chynnwys y rhain gyda'u cais.

Gorchmynion Diogelu Coed ac Ardaloedd Cadwraeth

Rhaid i ymgeiswyr ddweud wrthym os yw'r coed maent yn argymell eu torri'n destun Gorchymyn Diogelu Coed, neu mewn Ardal Gadwraeth awdurdod lleol. Yng Nghymru a Lloegr bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn penderfynu ai rhoi trwydded torri am goed o dan Orchymyn Diogelu Coed neu mewn Ardal Gadwraeth ai peidio. Eto, byddwn yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ynglŷn â'r cais. Yn yr Alban, byddwn yn rhoi ceisiadau o'r math ymlaen i'r awdurdod lleol iddynt benderfynu a ellir torri'r coed ai peidio.

Tir Enwebedig

Byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd os ydym yn ymwybodol o unrhyw enwebiadau statudol arbennig ar y tir fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Heneb Restredig. Rhaid i ymgeiswyr gael y caniatâd angenrheidiol gan y cyrff statudol perthnasol cyn y byddwn yn ystyried rhoi caniatâd am y cais.

Sut i gael gwybodaeth am argymhellion

Cofrestr Plannu Coetir a Thorri Coed

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cynnal Cofrestr sydd yn rhoi manylion am y ceisiadau canlynol, sef:

DED	**Dedication Scheme;**
DED	**Cynllun Enwebiadau;**
ECC	**Cynllun Cnydau Ynni ar gyfer coed copi cylchrediad byr;**
ECG	**Cynllun Cnydau Ynni ar gyfer Miscanthus (hesgen eliffant);**
FEP	**Cynlluniau Dylunio Menter Coedwigaeth;**
FEA	**Newid i Gynllun Dylunio Menter Coedwigaeth;**
FLA	**Trwyddedau Torri Coed neu geisiadau tebyg i dorri coed gan Fenter Coedwigaeth;**
FPA	**Cais Cynlluniau Coedwig;**
WGS	**Cynllun Grant Coetir;**
WGA	**Newid i Gynllun Grant Coetir;**
CYD	**Prosiect Cyd Coed.**

Mae'r Gofrestr yn rhoi crynodeb o'r cais. Mae'r wybodaeth a ddangosir yn cynnwys enw'r eiddo, cyfeirif grid, math ac arwynebedd y cais (mewn hectarau) sydd i'w plannu neu dorri (wedi rhannu mewn coed llydanddail a chonifferau). Yn y rhan fwyaf o achosion bydd map i ddangos lleoliad y torri neu'r plannu.

Sut y cewch ddarganfod pa achosion sydd ar y Gofrestr

Mae nifer o ffyrdd o wneud hyn:

- **Ei gweld yn swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth**
- **Ei gweld ar ein wefan ar www.forestry.gov.uk/publicregister lle y bydd rhai o'r ceisiadau â dolen i fap neu luniau o'r awyr**
- **Gallwn e-bostio i chi restr o achosion a ymddangosodd ar y Gofrestr yn yr wythnos flaenorol (bydd y pedair wythnos a ganiateir am sylwadau yn dechrau wrth i chi dderbyn yr e-bost)**

Pryd fyddwn yn rhoi ceisiadau ar y Gofrestr

Byddwn yn diweddaru'r Gofrestr yn wythnosol. Mae'n dangos ceisiadau rydym yn barod i'w cymeradwyo gan eu bod yn cwrdd â rheolau'n cynlluniau a'r canllawiau amgylcheddol a gynhwysir yn Safon Goedwigaeth y DU. Byddwn yn galw'r cam hwn yn "Argymhellion Cedyrn". Mae'r Gofrestr hefyd yn rhestru'r ceisiadau hynny a gymeradwywyd yn yr wythnos flaenorol yn dilyn y cyfnod ymgynghori o bedair wythnos.

Sut y cewch gymryd rhan yn y broses

Yr amserlen am roi eich sylwadau

Bydd manylion cais yn aros ar y Gofrestr am **bedair wythnos**. Yn ystod y cyfnod hwn, gall unrhyw un roi sylwadau neu wybodaeth ychwanegol i ni ar y cais.

Yr hyn i'w gwneud os ydych am ddarganfod mwy am gais

Os ydych am weld cais fel y bydd modd i chi benderfynu a fyddwch yn cyflwyno sylwadau i ni, cewch alw i mewn yn swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth a gofyn i weld y ffurflenni cais a'r map cysylltiedig. Cewch ofyn am gopi o'r rhain. Cofiwch fod y rhain yn ddogfennau gweithio ac mae'n bosibl y bydd newidiadau neu nodiadau arnynt. Ni ddangosir enw na chyfeiriad yr ymgeisydd. Os byddwch yn gofyn am gopïau yn rheolaidd, mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl.

Hefyd cewch ffonio neu e-bostio swyddfa leol y Comisiwn Coedwigaeth a gofyn am fanylion o'r cynllun neu gynlluniau sydd o ddiddordeb i chi.

Dylech nodi bod y rhan fwyaf o geisiadau am waith a fydd yn digwydd ar dir preifat ac mae'n bosibl y bydd angen caniatâd i fynd ar y tir. Nid yw cynnwys y tir ar Gofrestr Plannu Coetir a Thorri Coed yn newid y gofyniad hwnnw.

Os byddwch yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â chais, byddwn yn eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'n broses gymeradwyo, ac mae'n bosibl y byddwn yn eu trafod gyda'r ymgeisydd. Bydd Gwarchodwr lleol y Comisiwn Coedwigaeth am eich ardal chi yn gallu eich cynghori ar sut y cymerwyd eich sylwadau i ystyriaeth.

Sut y byddwn yn cael barn pobl eraill

Ymgynghori ag awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill

Ar hyn o bryd, byddwn yn anfon copïau o geisiadau atynt lle mae gofyniad statudol i ni ymgynghori ac mewn achosion eraill lle mae'r Comisiwn Coedwigaeth a'r cyfranogydd wedi cytuno i drefniadau ymgynghori lleol arbennig. Mae gan y cyrff statudol hyn bedair wythnos i ystyried manylion y cais a chyflwyno eu sylwadau i ni.

Lle y ceir testunau arbennig o gymhleth neu destunau amgylcheddol i'w hystyried, mae'n bosibl y bydd cyrff ymgynghori statudol yn gofyn i ni ymestyn y cyfnod hwn. O dan yr amgylchiadau hyn byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd y bydd prosesu'r cais yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Ond rydym yn argymell gwahodd cyrff ymgynghorol i fanteisio ar ddatblygiadau yn y dechnoleg wybodaeth i leihau'r baich gweinyddol i'r Comisiwn Coedwigaeth a'r corff ymgynghorol fel y cyfryw. Yn y dyfodol byddwn yn gwahodd cyrff ymgynghorol i ofyn am fanylion o'r ceisiadau maent yn ymddiddori ynddynt o Gofrestr Plannu Coetir a Thorri Coed a arddangosir ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth. Byddwn yn parhau i e-bostio'r hysbysiad o gynlluniau newydd ar y Gofrestr i gyrff ymgynghori statudol bob wythnos os hoffai'r cyrff ymgynghori hyn am i ni wneud hynny.

Gweler **Atodiad 1** am fanylion am drefniadau ymgynghori ar gyfer Prydain a'r gwledydd unigol.

Archeoleg

Byddwn hefyd yn anfon copi o bob cais am blannu coetir i archeolegwr yr awdurdod lleol, neu'r swyddog cyfatebol. Byddwn yn gofyn iddynt ddweud wrthym am unrhyw nodweddion o bwys archeolegol yn yr ardal y dylem eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y cais. Mae'n hanfodol cynllunio plannu neu weithgareddau coedwigaeth eraill fel na fyddant yn difrodi safleoedd archeolegol.

Sut y byddwn yn cymryd sylwadau i ystyriaeth

Os byddwn yn cael sylwadau neu wybodaeth arall yn ymwneud â'r cais, mae'n bosibl y byddwn yn trafod y rhain gyda'r ymgeisydd, gan ofyn iddyn nhw newid yr argymhellion i gymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae hyn wedi digwydd, mae'n bosibl gwneud newidiadau rhesymol a dod i ddatrysiad boddhaol. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu gwrthod y cais yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaeth i law.

Apelio a sut y byddwn yn datrys achosion anodd

Trafod y testunau

Lle y ceir gwrthwynebiadau difrifol i unrhyw ran o'r cais, byddwn yn trafod y testunau hyn gyda'r holl bartïon cyfranogol i weld a oes modd i ni ddod i gydsyniad am sut i symud yr argymhellion yn eu blaen.

Ceisio datrysiad gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol

Datrysir bron pob gwrthdrawiad barn yn foddhaol yn y cyfnod ymgynghorol. Ond ni fydd hyn yn bosibl mewn nifer fach o achosion, er enghraifft lle y ceir gwrthwynebiad gan un o'r awdurdodau statudol a'r ymgeisydd yn anfodlon i newid y cais. Lle bydd hyn yn digwydd, bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn cyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol. Mae Pwyllgor Ymgynghorol i bob o'n Gwarchodfeydd. Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn gwahodd y cyfranogwyr i gyfarfod lle y bydd modd iddynt roi eu barn. Bydd y cadeirydd yn cynnig cyfle i'r partïon archwilio cyfaddawd a fyddai'n cymodloni'r gwahaniaethau barn, neu awgrymu ffyrdd eraill i ddod i gymodiad.

Gweler Atodiad 2 am fanylion o sut y mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol yn gweithio.

Gwneud penderfyniadau am y cais

Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol yn cyhoeddi eu hargymhellion am yr achos trwy gyfrwng datganiad i'r wasg. Yna rhoddir eu hargymhellion i'r Comisiynwyr Coedwigaeth.

Sut y bydd y Comisiynwyr Coedwigaeth yn ystyried yr achos

Os bydd y Comisiynwyr yn penderfynu gwrthod y cais byddant yn hysbysu'r ymgeisydd. Ond os byddant yn meddwl y dylid cymeradwyo'r cais, ac felly'n anghytuno â gwrthwynebiad gan gorff ymgynghori statudol, byddant yn gofyn i'r Gweinidog Coedwigaeth perthnasol am eu barn cyn gwneud penderfyniad. Bydd y Comisiynwyr yn esbonio'r rhesymau i'r ymgeisydd ac yn rhoi barn y Gweinidog Coedwigaeth.

Apêl - gan ymgeiswyr am gymorthdal

Nid oes unrhyw hawl cyfreithiol ar apêl yn erbyn gwrthodiad i gymeradwyo cais am gymhorthdal. Ond gall ymgeiswyr sydd yn anhapus ynglŷn â phenderfyniad gysylltu'r Gweinidog Coedwigaeth perthnasol. Gall y Gweinidog ofyn i'r Comisiynwyr ailystyried eu penderfyniad.

Ail-geisio ar ôl gwrthodiad - cymorthdal

Os byddwn yn gwrthod cais am gymhorthdal, bydd y penderfyniad yn sefyll am bum mlynedd. Ond byddwn yn ystyried cais arall yn ystod y cyfnod hwn os bydd yn cynnwys argymhellion sydd yn sylweddol wahanol neu os cafwyd newid yn yr amgylchiadau.

Apêl - gan ymgeiswyr am drwydded torri

Mae llwybr arall ar gael am apelio yn erbyn penderfyniadau ar drwyddedau torri coed. Dim ond os gwrthodwyd trwydded ddwywaith am yr un tir a'r un argymhellion gwaith a bod bwlch o fwy na thair blynedd rhwng eich ceisiadau.

Ail-geisio ar ôl gwrthodiad - trwydded torri

Os byddwn yn gwrthod cais am drwydded torri, ni fyddwn yn ailystyried yr un cais am dair blynedd. Ond byddwn yn ystyried cais arall os bydd yn cynnwys argymhellion sydd yn sylweddol wahanol neu os cafwyd newid yn yr amgylchiadau.

Sut i ddysgu mwy

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Gofrestr Plannu Coetir a Thorri Coed neu os hoffech drefnu i chi gael hysbysiadau ar e-bost, cysylltwch â'r canlynol:

Grantiau a Thrwyddedau, Y Comisiwn Coedwigaeth,
Silvan House, 231 Corstophine Road, Caeredin EH12 7AT
neu cewch e-bostio **carole.burgess@forestry.gsi.gov.uk**



Ymgynghori ar blannu coetir a thorri coed

Atodiad 1

Cytunwyd ar yr egwyddorion cyffredinol sydd yn penderfynu pryd y byddwn yn anfon ceisiadau am ymgynghori'n genedlaethol, ond mae modd gwneud trefniadau lleol hefyd. Ceir crynodeb o'r trefniadau cenedlaethol cyfredol isod.

Yn dilyn arolwg gan y Comisiwn Coedwigaeth am y dulliau am ymgynghori ar argymhellion plannu coetir a thorri coed, cyhoeddodd y Gweinidog Coedwigaeth drefniadau ymgynghori diwygiedig mewn datganiad dyddiedig Mai 1996. Cynhwyswyd argymhellion torri ar y Gofrestr a ddaeth yn haws ei chyrraedd trwy ei gosod ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth. Cytunodd y Comisiwn Coedwigaeth hefyd i anfon copïau o'r Gofrestr i gyrff statudol perthnasol. Hefyd cytunwyd y trefniadau ymgynghori cytunedig a nodir isod yn genedlaethol.

Trefniadau ymgynghori a gytunwyd yn genedlaethol	
Y corff statudol perthnasol	**Math o achos**
Cyngor Cefn Gwlad Cymru English Nature Scottish Natural Heritage	Argymhellion plannu neu dorri sydd yn effeithio ar y canlynol: • **Gwarchodfa Natur Genedlaethol** • **Safle Diddordeb Gwyddonol Arbennig** • **Ardal Diogelu Arbennig** • **Ardal Cadwraeth Arbennig** • Ystyrir hefyd ceisiadau am argymhellion yn ymyl y mannau arbennig hyn lle mae'n bosibl y ceir effaith
CADW English Heritage Historic Scotland	Argymhellion plannu neu dorri sydd yn effeithio ar: • **Henebion Rhestredig**
Awdurdod Parc Cenedlaethol	Argymhellion plannu pum hectar neu fwy mewn: • **Parc Cenedlaethol**
Cyngor Cefn Gwlad Cymru English Nature Scottish Natural Heritage	Argymhellion plannu pum hectar neu fwy mewn: • **Ardal Prydferth Genedlaethol** • **Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol** • **Arfordir Treftadaeth**
Awdurdod Lleol	Argymhellion plannu deg hectar neu fwy: • Argymhellion torri sydd yn effeithio ar goed sydd yn destun **Gorchymyn Diogelu Coed** neu sydd mewn **Ardal Gadwraeth**
Adrannau Amaethyddiaeth: ARAD DEFRA SEERAD	Pan fydd y tir a gynhwysir yn y cais yn destun cytundeb rheolaeth o dan y **Cynllun Ardal Amgylcheddol Fregus**

Trefniadau ymgynghori arbennig i'r gwledydd unigol

Atodiad 1 (parhad)

Cymru	
ARAD	Plannu newydd o: • 20 hectar neu fwy • Lle y rhoddwyd grant gan yr Adran Amaethyddiaeth am unrhyw ran o'r tir a gynhwysir yn y cais yn ystod y ddwy flynedd diwethaf
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Yr holl blannu newydd neu dorri mewn: • Ardaloedd Amgylcheddol Bregus
Lloegr	
DEFRA	Lle y rhoddwyd grant gan yr Adran Amaethyddiaeth am unrhyw ran o'r tir a gynhwysir yn y cais yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.
Asiantaeth Cefn Gwlad	Am argymhellion plannu newydd a thorri yn fwy na 10 hectar mewn: • Ardal Amgylcheddol Fregus (hysbysu swyddogion prosiect ESA) Pob argymhelliad am dorri mewn: • Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol • Arfordir Treftadaeth
Yr Alban	
SEERAD	Plannu newydd am: • 50 hectar neu fwy mewn uned amaethyddol 10 hectar neu fwy ar dir amaethyddol yn nosbarthiadau 1,2 neu 3,1 o ddosbarthiad Priodolrwydd Tir am amaethyddiaeth • 10 hectar neu fwy lle mae SEERAD wedi enwebu'r tir fel angenrheidiol am gynnal diwydiant defaid mynyddig ffyniannus
Comisiwn Ceirw'r Alban	Plannu newydd o: • 50 hectar neu fwy (coedydd unigol)
Scottish Natural Heritage	Pob argymhelliad plannu newydd a thorri coed o 10 hectar neu fwy: • lle nad yw hyn yn destun cytundeb gyda SEERAD

Sut y mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol Rhanbarthol yn gweithio

Atodiad 2

O dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, mae'r Comisiynwyr Coedwigaeth yn penodi Pwyllgorau Ymgynghorol Rhanbarthol. Mae eu swyddogaethau'n cynnwys beirniadu mewn ceisiadau cynhennus am gymhorthdal neu drwyddedau torri ac mewn anghydfodau gan y cyrff statudol yn tarddu o gynlluniau dylunio Menter Coedwigaeth.

Mewn rhai achosion, bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cynghori'r Comisiynwyr yn uniongyrchol. Ond mewn llawer o achosion byddant yn cynghori'r Gwarchodwr perthnasol.

Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol

Mae Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol yn bodoli ar gyfer pob un o Warchodfeydd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae ganddynt hyd at 12 aelod a benodir gan y Comisiynwyr. Llunnir cyfansoddiad y Pwyllgorau i gyrraedd amrediad o fuddion sectorol. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant coedwigaeth, buddiannau amgylcheddol, perchnogion coetir yr ystyrir y gall eu cyfraniad i waith y Pwyllgor fod yn effeithiol.

Sefydlu a hysbysebu'r cyfarfod

Fel arfer bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn penodi is-bwyllgor o'u haelodau i ymweld â'r safle a chwrdd yn lleol. Bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn trefnu ar gyfer hysbysebion mewn dau bapur newydd lleol sydd yn rhoi manylion o'r cais, y gwrthwynebiadau iddo, dyddiad y cyfarfod, lle mae modd gweld yr argymhellion a chyfeiriad am anfon sylwadau.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y cyfranogion i ddatgan eu barn. Gellir cyflwyno datganiadau ysgrifenedig, mapiau, lluniau a dyluniadau tirwedd i gefnogi'r rhain. Bydd y cadeirydd yn sicrhau yr esbonnir yr holl nodweddion sylweddol ac y deellir barn y partïon yn glir. O bosibl bydd y Cadeirydd yn cynnig cyfle i'r partïon argymell cyfaddawdu a fyddai'n cymrodeddu'r gwahaniaethau barn dan sylw.

Beth os na cheir cymodi?

Pan fydd hyn yn digwydd, cyfeirir y cais i'r Comisiynwyr Coedwigaeth am benderfyniad. Bydd yr is-bwyllgor yn cwrdd i ystyried unrhyw gyngor y bydd yn ei gynnig i'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Bydd adroddiad o'i ystyriaeth o'r cais ar gael i aelodaeth gyflawn y pwyllgor.

Beth fydd y Comisiynwyr Coedwigaeth yn ei wneud?

Bydd y Comisiynwyr yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu a ydynt am gymeradwyo'r cais neu ei gwrthod. Os byddant yn penderfynu **gwrthod** byddant yn gofyn i'r Gwarchodwr hysbysu'r ymgeisydd, yr awdurdodau statudol a ymgynghorwyd â nhw ac unrhyw gyfranogwyr eraill.

Os bydd y Comisiynwyr yn penderfynu cymeradwyo cais lle y mae **gwrthwynebiad parhaus gan un o'r cyrff neu unigolion ymgynghorol**, rhaid iddynt geisio barn y Gweinidog Coedwigaeth priodol yn gyntaf. Bydd y Comisiynwyr yn cymryd barn y Gweinidog i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Yna byddant yn gofyn i'r Gwarchodwr hysbysu'r ymgeisydd, yr awdurdodau statudol yr ymgynghorwyd â nhw ac unrhyw bartïon cyfranogol eraill.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn cyhoeddi datganiad i'r wasg a fydd yn rhoi crynodeb o drafodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol gyda'r partïon i'r achos dan sylw a'r cyngor dilynol a ddarparwyd i'r Comisiynwyr.

Diffiniad Termau

Atodiad 3

Cyrff ymgynghorol statudol - cyrff sydd â chyfrifoldeb statudol ac yr ydym wedi cytuno ymgynghori'n ffurfiol gyda nhw o dan amgylchiadau cytunedig.

Ymgynghoriad ffurfiol - y broses o'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwahodd sylwadau yn ffurfiol gan gyrff ymgynghorol cyn gwneud penderfyniadau ar gais.

Ymateb ymgynghorol - yn angenrheidiol o fewn 32 o ddiwrnodau neu fynegi bwriad i gyflwyno sylwadau o fewn 28 o ddiwrnodau (ar yr amod y derbynnir sylwadau o fewn 2 fis ychwanegol).

Gwrthwynebiad - yn ysgogi dulliau gweithredu achos cynhennus. Mae'r hawl i wrthwynebu'n eiddo'r cyrff ymgynghorol statudol yn unig.

Hysbysu - gwahodd sylwadau gan gyrff ymgynghorol ac eraill cyn gwneud penderfyniad ar gais (yn nodweddiadol yn golygu anfon llythyr ffurfiol gyda chopi o'r map amlinellol. Mae angen ymatebion o fewn 28 o ddiwrnodau ac ni cheir unrhyw hawl uniongyrchol i wrthwynebu).

Achos cynhennus - un lle mae gwrthwynebiad gan gyrff ymgynghorol statudol mewn canlyniad i ymgynghoriad ffurfiol yn barhaus.

Comisiwn Coedwigaeth
Forestry Commission

FCCS051

Argraffwyd gan Grantiau a Trwyddedau, Comisiwn Coedwigaeth, Silvan House, 231 Corstorphine Road, Caeredin EH12 7AT
IB14/20(CON)-GL-MDA-Awst 02 © Hawlfraint y Goron.